# Adolygiad y Flwyddyn 2022-2023 - Y Panel Ymgynghorol

## 1. Cefndir

1.1 Mae'r papur hwn yn adolygu effeithiolrwydd a gwaith y Panel Ymgynghorol (y Panel) yn ystod 2022-2023. Yn yr un modd ag adolygiadau blynyddol o'r blynyddoedd a fu, mae'n ystyried y safbwyntiau a gafodd eu mynegi gan Aelodau'r Panel yn y ffurflenni arfarnu hunanasesu a lenwyd yn ystod mis Mawrth 2023.

## 2. Rôl y Panel Ymgynghorol

2.1 Mae'r Panel Ymgynghorol yn fforwm anstatudol, a'i brif rôl yw rhoi cefnogaeth a chyngor i'r Ombwdsmon wrth iddo ddarparu arweiniad i'r swyddfa a'i llywodraethu'n dda fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC). Mae profiadau amrywiol yr aelodau Panel yn cynnig persbectif allanol a gwrthrychol i'r Ombwdsmon (sy'n gorfforaeth yn unig), ynghyd â chyngor gyda'r gwaith o ddatblygu polisïau ac arferion, cyfeiriad strategol a chraffu ar berfformiad OGCC.

2.2 Adolygwyd Cylch Gorchwyl y Panel Ymgynghorol gan yr Ombwdsmon a chytunwyd arno gan y Panel ym mis Gorffennaf 2022 ac fe'i nodir yn Atodiad A. Gwnaed y newidiadau a roddwyd ar waith i roi gwydnwch a mynediad i OGCC at ystod eang o arbenigedd i gefnogi ei waith; lleihau trosiant arbenigedd a rhoi parhad i'r Ombwdsmon yn ystod ei blwyddyn gyntaf yn y swydd; rhoi mwy o hyfforddiant a chyfleoedd i aelodau'r Panel ymgyfarwyddo â gwaith timau o fewn y swyddfa a sicrhau parhad a gwydnwch cryfach yn y dyfodol trwy benodi Is-Gadeirydd i'r Panel (gyda'r bwriad i'r Is-Gadeirydd gamu i rôl y Cadeirydd pan ddaw cyfnod swydd y Cadeirydd i ben).

## 3. Aelodaeth

3.1 Mae'r aelodaeth yn cynnwys yr Ombwdsmon ac isafswm o bedwar ac uchafswm o wyth aelod allanol annibynnol (sy'n cynnig sgiliau a phrofiad penodol a geisir gan yr Ombwdsmon a gall gynnwys unigolyn o swyddfa ombwdsmon arall). Yn ychwanegol, gall hyd at ddau aelod cyfetholedig eu cynnwys yn yr aelodaeth.

3.2 Mae'r Ombwdsmon yn bresennol yng nghyfarfodydd y Panel ac mae'r Prif Gynghorwr Cyfreithiol a Chyfarwyddwr Ymchwiliadau yn gweithredu fel Ysgrifennydd y Panel.

3.3 Cynhaliwyd ymarfer recriwtio ym mis Tachwedd 2022 i benodi aelodau ychwanegol i'r Panel i ystyried cyfnodau rhai aelodau a ddaeth i ben yn 2021 a 2022. Mae aelodaeth y Panel yn ystod y blynyddoedd felly wedi bod fel a ganlyn:

- Dr Jane Martin CBE (Cadeirydd)
- Mr Trevor Coxon (hyd nes Ebrill 2022)
- Mr Ian Williams
- Mr Mike Usher

- Ms Carys Evans (Is-Gadeirydd ers Hydref 2022)
- Mrs Sue Phelps (ers Ionawr 2023)
- Mrs Nia Roberts (ers Ionawr 2023)
- Mrs Bernie Davies (ers Ionawr 2023)

3.4 Bu Jane Martin yn Gadeirydd drwy gydol y flwyddyn a phenodwyd Carys Evans yn Is-Gadeirydd o Hydref 2022. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am yr aelodau yma.

## 4. Cyfarfodydd

4.1 Mae aelodau'r panel wedi parhau i ddangos eu hymrwymiad i'r rolau, gyda phob un ohonynt yn cadw at lefel ragorol o bresenoldeb yn y cyfarfodydd a gynhaliwyd dros y flwyddyn ddiwethaf. Y presenoldeb llawn am y flwyddyn oedd pedwar cyfarfod. Roedd presenoldeb y Panel yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

| Aelod y Panel | Adegau y buont yn bresennol | Cyfanswm Posibl |
|---|---|---|
| Trevor Coxon | 1 | 1 |
| Ian Williams | 4 | 4 |
| Jane Martin | 3 | 4 |
| Mike Usher | 4 | 4 |
| Carys Evans | 4 | 4 |
| Sue Phelps | 1 | 1 |
| Nia Roberts | 1 | 1 |
| Bernie Davies | 1 | 1 |

4.2 Mae’r Panel yn gosod rhaglen waith flynyddol i’w hun, ac mae Aelodau’r Panel wedi cael nifer o adroddiadau rheolaidd ym mhob cyfarfod, fel monitro cynnydd o gymharu â’r targedau sydd yn y Cynlluniau Strategol a Gweithredol; a’r Adroddiad Monitro Perfformiad misol. Mae Rhaglenni Gwaith 2022-2023 a 2023-2024 wedi’u nodi yn Atodiadau B a C, yn y drefn honno.

4.3 Mae’r Panel wedi parhau i weithio’n effeithiol drwy gydol y cyfnod adolygu ac wedi darparu craffu a her ddefnyddiol i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

4.4 Y materion allweddol a ystyriwyd gan y Panel yn 2022-2023 oedd:

- Roedd cynghori OGCC ar ei ddull o lunio ei flaenoriaethau yn ei Gynllun Strategol newydd yn rhan sylweddol o waith y Panel yn ystod y flwyddyn. Ar gam cynnar o'r broses, ystyriodd aelodau adborth a gafodd OGCC o’i arolygon boddhad cwsmeriaid; canlyniadau arolygon staff a sesiynau ymgysylltu â staff. Yn dilyn hynny, bu'r aelodau hefyd yn ystyried yr ymatebion helaeth a gafodd OGCC yn dilyn ei ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cynllun Strategol drafft cyn cynghori OGCC ymhellach ar y Cynllun Strategol terfynol.

- Craffu ar Adroddiad Blynyddol drafft OGCC ynglŷn â’i berfformiad yn ystod 2021-2022.

- Cynghori'r Ombwdsmon ar amcangyfrifon ariannol drafft OGCC cyn eu cyflwyno i'r Senedd (i'w cymeradwyo ym mis Hydref); darparu adborth a chyfraniadau manwl ar ymateb OGCC i ohebiaeth Pwyllgor Cyllid y Senedd, a chynorthwyo'r Ombwdsmon yn gyffredinol ar y berthynas allweddol hon rhwng y Senedd a'r swyddfa.

- Rhoi adborth i OGCC ar ei ddull o adrodd ar ei ddarpariaeth o'r pwerau rhagweithiol o dan Ddeddf OGCC 2019.

- Cynghori OGCC ar bynciau posibl ar gyfer ei ymchwiliad ar ei Liwt ei Hun gan gynnwys ar y pwnc o asesiadau o anghenion gofalwyr yr ymgynghorodd OGCC arno fel mater posibl i'w ymchwilio.

4.5 Yn Ebrill 2022, derbyniodd aelodau hyfforddiant mewnol ar gwynion Cod Ymddygiad a chwynion Tai.

4.6 Yn Hydref 2022, rhoddwyd sesiwn hyfforddi i aelodau'r Panel Ymgynghorol a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ar Seiberddiogelwch. Roedd y sesiwn yn cynnwys cyflwyniadau gan swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ac Archwilio Cymru, cafodd dderbyniad da gan yr aelodau a rhoddodd adborth defnyddiol i OGCC.

4.7 Yn Ionawr 2023, mynychodd aelodau newydd y Panel ddiwrnod cynefino yn y swyddfa i roi trosolwg iddynt o waith y swyddfa.

4.8 Yn Chwefror 2023, bu pob aelod o'r Panel yn bresennol mewn Sesiwn Ymwybyddiaeth Staff lle cyflwynodd aelodau allweddol o staff yr Ombwdsmon ar eu maes gwaith i roi dealltwriaeth eang i'r aelodau o bob maes o waith yr Ombwdsmon o safbwynt staff.

## 5. Adolygiad Blynyddol

5.1 Fel rhan o'r adolygiad blynyddol hwn, mae aelodau'r Panel wedi asesu eu perfformiad unigol a pherfformiad y Panel yn ei gyfanrwydd. Maent wedi ystyried a ydynt yn cynnal ymwybyddiaeth a dealltwriaeth glir o awdurdodaeth a gweithrediadau'r OGCC er mwyn darparu cyngor a chefnogaeth effeithiol i'r Ombwdsmon ac i gynorthwyo'r Ombwdsmon ar drefniadau llywodraethu, nodau strategol, amcanion a thargedau. Yn ogystal, roedd yr adolygiad hefyd yn asesu a oeddent yn teimlo eu bod wedi'u cyfarparu i gynnig craffu priodol a her i'r Ombwdsmon a'i staff, ynghyd ag asesu'r perthnasoedd gwaith rhwng aelodau'r Panel, swyddfa'r Ombwdsmon a rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys adnabod unrhyw anawsterau sy'n bodoli.

5.2 Cynhaliwyd trafodaethau blynyddol un i un rhwng yr Ombwdsmon a Chadeirydd y Panel, a rhwng y Cadeirydd ac aelodau unigol y Panel, a darparodd gyfle defnyddiol i gael adborth ar berfformiad aelodau unigol ac effeithiolrwydd y Panel yn ei gyfanrwydd.

5.3 Roedd yr aelodau o'r farn eu bod wedi gweithio yn dda dros y flwyddyn i gefnogi'r Ombwdsmon yn ei rôl fel corfforaeth undyn, a'u bod wedi darparu craffu a her briodol i'r swyddfa yn ystod y flwyddyn. Croesawant yr adolygiad diweddar o gylch

gorchwyl y Panel a'r mwy o gyfleoedd am hyfforddiant ac ymgysylltu â staff a ddarparwyd gan hyn.

5.4 Roedd yr aelodau newydd a ymunodd â'r Panel eleni o'r farn bod eu cyfnod cynefino i'r rôl yn addysgiadol a defnyddiol. Hoffai'r aelodau sicrhau, fel grŵp newydd sy'n cydweithio, eu bod yn meithrin perthnasoedd fel tîm, yn sicrhau bod yr aelodau sefydledig yn rhannu eu gwybodaeth o'r rôl a'r swyddfa gyda'r aelodau newydd a'u bod yn meithrin perthnasoedd gwaith da ymysg ei gilydd a gyda'r Ombwdsmon a'i staff.

5.5 Byddent yn croesawu rhagor o gyfleoedd i ymgysylltu â staff i gael gwell dealltwriaeth o'r gwahanol rolau a gyflawnir yn y swyddfa a'r heriau a wynebir gan staff. Maent hefyd yn edrych ymlaen at gefnogi'r swyddfa â'u gwaith o dan Gynllun Strategol newydd yr Ombwdsmon a dod â'u sgiliau a'u harbenigedd i rannu gwybodaeth am wasanaeth yr Ombwdsmon trwy eu gwaith a'r rhwydweithiau.

## 6. Ystyriaethau yn y Dyfodol

6.1 O ran anghenion yn y dyfodol, yn sgil cael adborth gan yr aelodau, bydd OGCC yn:

- Darparu cyfleoedd i'r aelodau rannu eu gwybodaeth a'u sgiliau a meithrin perthnasoedd fel tîm newydd.
- Parhau i roi cyfleoedd i'r aelodau ymgysylltu â staff a deall yr heriau a wynebir ganddynt yn eu gwahanol rolau.
- Rhoi hyfforddiant i'r aelodau ar bynciau a fydd yn eu cynorthwyo yn eu rolau.

## 7. Asesiad Cyffredinol gan Gadeirydd y Panel Ymgynghorol

7.1 Mae'r newidiadau yng nghylch gorchwyl y Panel wedi'u cyflwyno yn effeithiol eleni ac mae'r aelodau newydd wedi integreiddio yn dda gydag aelodau eraill. Mae aelodau wedi herio perfformiad y swyddfa yn adeiladol ac mae ganddynt berthynas waith agored a da gyda'r Ombwdsmon a'i staff. Croesawa'r Ombwdsmon a'r tîm gweithredol yr arbenigedd a'r her a rennir.

Mae sesiynau gwybodaeth ar faterion gwaith achos a'r effaith a gyflawnodd y staff wedi bod yn fuddiol ac wedi helpu aelodau roi eu gwaith yn eu rôl ymgynghorol mewn cyd-destun. Bydd aelodau yn parhau i fod yn seinfwrdd i gefnogi'r Ombwdsmon yn ei rôl a rhoi her adeiladol ar gyfer cyflawni Cynllun Strategol OGCC a nodau strategol newydd.

Dymunaf ddiolch i Trevor Coxon, y daeth ei gyfnod yn y swydd i ben yn Ebrill 2023, am ei gyfraniad cadarnhaol fel aelod o'r Panel Ymgynghorol dros y 4 blynedd diwethaf.

| |
|---|
| Atodiad A - Cylch Gorchwyl y Panel Ymgynghorol<br>Atodiad B - Rhaglen Waith 2022-2023<br>Atodiad C - Rhaglen Waith 2023-2024 |

**ATODIAD A**

# Y Panel Ymgynghorol - Cylch Gorchwyl

**Statws y Panel Ymgynghorol**
Mae'r Panel Ymgynghorol yn fforwm anstatudol, a'i brif rôl yw cynnig cefnogaeth a chyngor i'r Ombwdsmon ar arweiniad a chyfeiriad strategol swyddfa'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae'r Panel Ymgynghorol hefyd yn dod â phersbectif allanol i gynorthwyo wrth ddatblygu polisi ac arfer.

Mae'r Panel Ymgynghorol yn darparu cyngor a chefnogaeth benodol i'r Ombwdsmon ar:

- weledigaeth, gwerthoedd a dibenion;
- cyfeiriad a chynllunio strategol.

Corff ymgynghorol yn unig yw'r Panel Ymgynghorol i'r Ombwdsmon ac nid yw'n gwneud penderfyniadau ynddo'i hun.

**Aelodaeth**
Bydd yr aelodaeth yn cynnwys:

- Isafswm o bedwar ac uchafswm o wyth aelod allanol annibynnol (sy'n cynnig sgiliau a phrofiad penodol a geisir gan yr Ombwdsmon a gall gynnwys unigolyn o swyddfa ombwdsmon arall).
- Hyd at ddau aelod cyfetholedig.

Bydd y Prif Gynghorwr Cyfreithiol a Chyfarwyddwr Ymchwiliadau yn gweithredu fel ysgrifennydd y Panel. Bydd aelodau eraill o'r Tîm Rheoli, yn ôl penderfyniad yr Ombwdsmon, yn mynychu cyfarfodydd y Panel.

Cyfnod yr aelodau Annibynnol yn y swydd fydd tair blynedd. Mae gan yr Ombwdsmon yr opsiwn i ymestyn y tymor hwn am dair blynedd arall.

Un o'r aelodau allanol annibynnol fydd yn Cadeirio'r cyfarfodydd. Bydd Is-Gadeirydd hefyd yn cael ei benodi. Bydd yr Ombwdsmon yn penodi aelodau annibynnol o'r Panel i swyddi Cadeirydd ac Is-Gadeirydd ar argymhelliad y Panel Ymgynghorol. Os yw'r Ombwdsmon yn penderfynu yn erbyn dilyn argymhelliad y Panel Ymgynghorol, bydd penderfyniad yr Ombwdsmon yn cael ei gofnodi yng nghofnodion cyfarfod y Panel Ymgynghorol.

I hybu annibyniaeth, rhaid i o leiaf un aelod annibynnol o'r Panel Ymgynghorol beidio â bod yn aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.

**Rôl a chyfrifoldebau'r Panel**
Cynorthwyo'r Ombwdsmon wrth sefydlu:

- cyfeiriad, nodau, amcanion a thargedau strategol OGCC;
- polisïau busnes allweddol;

- strategaethau a pholisïau cyflogaeth allweddol.

I archwilio a sicrhau:
- y Cynllun Strategol Tair Blynedd a'r Cynllun Gweithredol Blynyddol;
- dyrannu cyllideb lefel uchel;
- cyflwyno amcangyfrifon cyllideb i Bwyllgor Cyllid Senedd Cymru.

I fonitro ac adolygu:
- perfformiad a darpariaeth weithredol;
- effeithiolrwydd strategaethau a pholisïau cyflogaeth;
- amrywiaeth a chyfle cyfartal, yn enwedig mewn cysylltiad â'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- strategaethau cyfathrebu allanol a chysylltiadau â rhanddeiliaid.

**Hawliau**
Gall yr Ombwdsmon a'r Panel Ymgynghorol:
- gyfethol aelodau ychwanegol am gyfnod nad yw'n fwy na dwy flynedd i ddarparu sgiliau, gwybodaeth a phrofiad arbenigol a helpu'r Panel i gynrychioli'r cymunedau y mae'r Ombwdsmon yn eu gwasanaethu.
- cael cyngor ad-hoc arbenigol, yn amodol ar fod o fewn y gyllideb.

**Cyfarfodydd**
Bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal pedair gwaith y flwyddyn.  Bydd cworwm yn isafswm o dri aelod annibynnol.

Bydd yr Ombwdsmon (neu, fel eithriad, dirprwy a enwebir gan yr Ombwdsmon) hefyd yn bresennol ym mhob cyfarfod.

Os na fydd Cadeirydd y Panel Ymgynghorol yn gallu dod i gyfarfod, bydd yr Is-Gadeirydd yn cymryd y gadair neu os na allant ddod i'r cyfarfod, bydd aelod annibynnol arall yn cadeirio'r cyfarfod.

Yn dilyn cymeradwyaeth yng nghyfarfod nesaf y Panel, bydd cofnodion cyfarfodydd yn cael eu cyhoeddi yn unol â phenderfyniad yr Ombwdsmon.

**Datganiad o Fuddiannau Aelodau** Mae'n ofynnol i aelodau ddatgan unrhyw fuddiannau personol yn unol â pholisi OGCC ar Ddatgan Buddiannau gan aelodau'r Panel Ymgynghorol a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.

**Is-bwyllgorau**
Mae'n agored i'r Panel Ymgynghorol ffurfio Pwyllgor Tâl, neu is-bwyllgorau eraill, ar sail ad hoc (h.y.  pan fydd yr angen yn codi).

**Gofynion o ran Gwybodaeth**
Ar gyfer pob cyfarfod, bydd y Panel Ymgynghorol yn cael adroddiad ar gynnydd yn erbyn nodau ac amcanion y Cynllun Strategol / Gweithredol.

Fel a phan fo'n briodol, bydd y Panel hefyd yn cael y canlynol:

- rhaglen waith flynyddol
- adolygiadau ar gynnydd yn erbyn y Strategaeth Cyfathrebu ac Allgymorth
- cynigion ar gyfer unrhyw amcanion newydd ‘yn ystod y flwyddyn’ na ragwelwyd yn wreiddiol pan gafodd y Cynlluniau Strategol / Gweithredol eu datblygu
- cyflwyno amcangyfrifon blynyddol drafft i Bwyllgor Cyllid Senedd Cymru
- drafftiau o gynigion ar gyfer polisïau busnes / cyflogaeth allweddol newydd neu ddiwygiedig
- diweddariadau ar berthnasoedd gwaith gyda Senedd Cymru
- cynigion ar gyfer unrhyw ddatblygiadau sefydliadol
- Adroddiad Blynyddol OGCC
- adolygiad cyfnodol o effeithiolrwydd y Panel Ymgynghorol ei hun.

**Adrodd**

- Bydd pob cyfarfod panel yn cael ei gofnodi mewn cofnodion a fydd yn cael eu cymeradwyo yn y cyfarfod nesaf.
- Bydd y Panel yn darparu Adroddiad Blynyddol i’r Ombwdsmon ar y gwaith y mae’r Panel wedi’i wneud yn ystod y flwyddyn, gan amseru’r adroddiad i gefnogi cwblhad yr Adroddiad Blynyddol a Datganiad Llywodraethu Blynyddol yr Ombwdsmon.

Nodyn: I osgoi unrhyw amheuaeth ac yn unol â’r Cylch Gorchwyl hwn, ymgynghori yn unig yw rôl a chylch gwaith y Panel Ymgynghorol. Nid oes gan y Panel nac unrhyw aelod unigol unrhyw rôl neu gylch gwaith mewn cysylltiad â materion gweithredol na phenderfyniadau gwaith achos a wneir gan OGCC.

****************************************

Wedi’i gymeradwyo gan y Tîm Rheoli ar 20 Gorffennaf 2022
Wedi’i gadarnhau gan y Panel Ymgynghorol ar 12 Gorffennaf 2022
Adolygiad Nesaf: Gorffennaf 2023

**ATODIAD B**

# Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
# Rhaglen Waith y Panel Ymgynghorol 2022-2023

## Ebrill 2022

Cynllun Gweithredol - Adroddiad Cynnydd
Adroddiad Monitro Cwynion
Adolygiad y Flwyddyn 2021-2022 - y Panel Ymgynghorol
Cynllun Corfforaethol
Cynllun Gweithredol Drafft 2022-2023
Eitem Trafod

## Gorffennaf 2022

Adroddiad Blynyddol 2021-2022
Cynllun Gwaith Cyfathrebu ac Allgymorth 2022-2023
Cynllun Gweithredol - Adroddiad Cynnydd
Adroddiad Monitro Cwynion
Materion Cychwynnol i'w Hystyried ar gyfer Cyflwyno Amcangyfrifon 2023-2024
Cofrestr Buddiannau
Gofynion Hyfforddi a Datblygu Aelodau'r Panel Ymgynghorol
Eitem Trafod

## Hydref 2022

Cyflwyno Amcangyfrifon i Senedd Cymru
Cynllun Gweithredol - Adroddiad Cynnydd
Adroddiad Monitro Cwynion
Eitem Trafod

## Ionawr 2023

Diweddariad ar Gyflwyno Amcangyfrifon i Senedd Cymru (ar lafar)
Cynllun Gweithredol - Adroddiad Cynnydd
Adroddiad Monitro Cwynion
Adroddiad Cyfathrebu ac Allgymorth
Adolygiad o Gylch Gorchwyl y Panel Ymgynghorol
Adolygiad o Raglen Waith y Panel Ymgynghorol 2023-2024
Eitem Trafod

**ATODIAD C**

## Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
## Rhaglen Waith y Panel Ymgynghorol 2023-2024

### Ebrill 2023

Cynllun Busnes
Adroddiad Monitro Perfformiad
Diweddariad ar Bwerau Rhagweithiol
Adolygiad y Flwyddyn 2022-2023 - Y Panel Ymgynghorol
Eitem drafod ar Nod Strategol

### Gorffennaf 2023

Adroddiad Blynyddol 2022-2023
Cynllun Strategol 2023 -2024 gan gynnwys. Digidol a TG, Allgymorth, Cynlluniau
Cydraddoldeb a Phobl Diweddariad Cynllun Busnes
Adroddiad Monitro Perfformiad
Materion Cychwynnol i'w Hystyried ar gyfer Cyflwyno Amcangyfrifon 2024-2025
Cofrestr Buddiannau
Gofynion Hyfforddi a Datblygu Aelodau'r Panel Ymgynghorol
Adolygiad o Gylch Gorchwyl y Panel Ymgynghorol
Eitem drafod ar Nod Strategol

### Hydref 2023

Cyflwyno Amcangyfrifon i Senedd Cymru
Diweddariad Cynllun Busnes
Adroddiad Monitro Perfformiad
Diweddariad ar Ymchwiliad ar ei Liwt ei Hun
Eitem drafod ar Nod Strategol

### Ionawr 2024

Diweddariad ar Gyflwyno Amcangyfrifon i Senedd Cymru (ar lafar)
Diweddariad Cynllun Busnes
Adroddiad Monitro Perfformiad
Diweddariad ar Gyfathrebu ac Allgymorth
Adolygiad o Raglen Waith y Panel Ymgynghorol 2024-2025
Eitem drafod ar Nod Strategol